**ASTUDIAETH ACHOS - Daisy**

Cafodd Daisy, sy'n 88 oed, godwm yn ei chartref a arweiniodd at arhosiad mewn ysbyty.

Tra'r oedd yn yr ysbyty, dywedwyd wrth Derek ei gŵr y byddai angen pecyn gofal ar Daisy cyn y gallai hi fynd adref a fyddai'n golygu cael 4 ymweliad y dydd.

Pan siaradodd y Gweithiwr Cymdeithasol â Derek, er ei fod yn gwerthfawrogi fod angen cefnogaeth ar Daisy i'w galluogi i ddychwelyd adref yn ddiogel, yr hyn oedd yn bwysig iddo ef a'i deulu oedd eu preifatrwydd. Nid oedd Derek yn hoff o'r syniad o ddieithriaid yn dod i mewn i'w cartref bedair gwaith y dydd.

Gwrthododd Derek y cynnig o asesiad gofalwr gan ei fod yn meddwl mai ei ddyletswydd ef yw gofalu am ei wraig.

Treuliodd y Gweithiwr Cymdeithasol amser gyda Derek yn archwilio sut i ddiwallu anghenion Daisy yn y modd lleiaf ymwthiol gan sicrhau cydbwysedd rhwng y risgiau a hawliau pawb dan sylw.

Er mwyn galluogi Daisy i ddychwelyd adref, cytunwyd y dylid rhoi pecyn gofal o ddau ymweliad y dydd mewn lle ar gyfer gofal personol Daisy a byddai Derek yn paratoi prydau bwyd. Roedd yn amlwg i'r Gweithiwr Cymdeithasol fod gan Derek ddymuniad cryf  i ofalu am Daisy, ei wraig ers 68 mlynedd.

Ar ôl cyfnod byr bu raid i Derek fynd i'r ysbyty gyda phroblemau â'i galon. Camodd gweddill y teulu i'r bwlch ond cyn bo hir aeth yr holl yrru nôl a mlaen a gofalu am Daisy yn faich arnynt. O ganlyniad cynyddwyd y pecyn cymorth i 4 galwad y dydd er mwyn galluogi Daisy i aros yn ei chartref ac i osgoi unrhyw straen pellach i'r teulu.

Pan ddychwelodd Derek adref roedd y gofal y gallai ei ddarparu yn ysbeidiol, yn ddibynnol iawn ar faint o orffwys y byddai'n ei gael y diwrnod cynt a sut yr oedd yn teimlo. Teimlai'r Gweithiwr Cymdeithasol mai Cyllideb Cefnogaeth oedd yr ateb ac roedd yr asiantaeth a oedd yn darparu gofal i Daisy yn croesawu'r syniad, gan eu bod eisoes wedi bod yn gweithio mewn modd hyblyg i ymateb i anghenion cyfnewidiol y teulu. Y peth pwysicaf i Daisy oedd bod adref gyda Derek a'i chŵn.

Y peth gwerthfawr am y Gyllideb Cefnogaeth i Daisy a'i theulu oedd fod ganddyn nhw fwy o ddewis a rheolaeth dros pryd ac am faint yr oedd gweithwyr cefnogi yn dod i mewn i'w helpu.

I'r Gwasanaethau Cymorth Cymunedol roedd yn golygu na fyddai raid galw ar y gweithiwr cymdeithasol i wneud yr holl newidiadau i lefel y pecyn gofal gan mai Daisy a Derek sy'n rheoli pryd a sut mae cefnogaeth yn cael ei darparu.